

Gweithio gyda Duw – am byth

“... y maent o flaen gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml.”
(adn. 15)

Beth am ddarlflen Datguddiad 7:1–17 ac yna myfyrio

A lenwir ein hamser yn y nefoedd yn gyfan gwbl gyda mawl? Nid yn ôl yr Ysgrythur. Mae'r digrifwyr wedi cael hwyl anghyffredin yn disgrifio'r nefoedd fel gwasanaeth eglwysig di-ben-draw lle mae rhai daearol yn magu esgyll ac yn cael lle parhaus mewn côr tragwyddol. Mae sôn am Lloyd George, a fu'n brif weinidog, wrth gwrs, yn dweud unwaith, pan oedd yn fachgen, fod y syniad o nefoedd yn codi braw arno, a hynny'n fwy nag uffern, gan ei fod yn credu ei bod yn ddydd Sul parhaus. Er mwyn deall y braw a brofodd, rhaid cofio yn ei ddydd ef fod y Sul yn ddydd tawel difrifol, ac yn aml yr oedd yn rhaid i blant aros i mewn wedi bod yn yr eglwys, a gwneud dim ar wahân i ddarlflen. Mynnodd fod ei ddealltwriaeth o'r nefoedd wedi ei arwain i droi at anghrediniaeth, er iddo'n ddiweddarach mewn bywyd ddod i, o leiaf, dderbyn y syniad o Dduw a'r syniad o nefoedd.

O gymharu â hyn, mae ein testun heddiw yn cyhoeddi bod y rhai a brynwyd yn y nefoedd yn ei wasanaethu ef ddydd a nos. Felly, nid lle o fawl yn unig yw'r nefoedd. Mae'n lle o wasanaeth parhaus. Un o'r pethau melys yr ydym yn ei brofi yma ar y ddaear yw'r wybodaeth ein bod yn gweithio gyda Duw. Ni fydd yn llai melys yn y nefoedd. Nid oes dim ynglŷn â'r nefoedd fydd yn ei gwneud yn ddi-flastod i'r saint. Yr ydym yn gwasanaethu Duw sydd â'r gallu parhaus i greu. Yn ôl Iesu, yr oedd ei Dad bob amser yn gweithio (Ioan 5:17). Mae rhai pobl yn ystyried hyn fel cyfeiriad at waith Duw yn achub, ac felly, pan fydd y gwaith yma yn dod i ben, mi fydd Duw yn peidio â gweithio. Eto, mae'n anodd credu am Dduw a fydd yn ddi-waith neu am Dduw fydd ryw ddiwrnod yn ymddeol. Fe fydd yn barhaus yn parhau i greu, ac fe fyddwn ni a'i Eglwys yn cydweithio gydag ef.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Rhuf. 12:1–18; Ioan 12:26; 17:24; Eff. 6:7; 1 Thes. 5:23–24

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw'r berthynas rhwng addoliad a gwasanaeth?
2. Beth oedd anogaeth Paul?

Gweddi

O Dad, mae'n felys ystyried na fydd yna ddim diweithdra yn y nefoedd. Rwyf ti yn gweithio, a byddaf innau yn gweithio. Rwyf yn gwybod y bydd y gwaith yma yn cael ei gyflawni, nid er fy mwyn i, ac nid er mwyn gweithio, ond fe fydd yn waith â phwrpas iddo. Diolch, O Dad. Amen.